

Cymreictod yn y Wladfa yn ffynnu

14 Gorffennaf 2001

Sut argraff dach chi wedi ei gael o'r Wladfa hyd yn hyn?

Beth sy'n ddiddorol i mi yw bod yr awydd i bara ymlaen gyda'r diwylliant Cymreig yn y Wladfa. Mae'r bobl rwyf i wedi cyfarfod â nhw gyda'r awydd i ddal y cysylltiad a chadw'r diwylliant a'r iaith Gymraeg yn fyw - ac mae'n para mor gryf ag erioed. Ond dydy o ddim yn mynd i ddigwydd yn naturiol - mae eisiau hwb arno.

Sut fath o hwb dach chi'n credu sydd ei angen yn ychwanegol i'r hyn sydd eisioes wedi ei wneud?

Mae'r athrawon wedi rhoi hwb, ac efallai nad dim ond athrawon sydd eisiau - dwi ddim yn siwr. Ond efallai fod eisiau dod â phobl ifaine o'r Wladfa draw i Gymru er mwyn cael eu hyfforddi fel ein bod ni ddim yn dibynnu ar bobl o Gymru i ddod mas i'r Wladfa. Mae'r awydd yna - dyna beth sy'n bwysig. Mae'r Wladfa bron â bod yn unigryw i unrhyw le, a'r America - y gogledd a'r de - ac i unrhyw wlad neu genhedlaeth.

Achos fel arfer, erbyn eich bod chi'n cyrraedd y drydedd genhedlaeth sydd wedi croesi Môr yr Iwerydd o Ewrop - mae'r iaith wedi ei cholli, ac mae'r diwylliant yn dechrau symud i fewn i ddiwylliant blaenorol y wlad yna. Mae rhai Eidolwyr sydd wedi mynd i dde America wedi colli'r iaith Eidaleg. Mae'r Wladfa yn para i fynd ar ôl pum genhedlaeth, felly mae hynny'n gwneud y lle yn hollol unigryw yn y berthynas rhwng Ewrop ag America, ac nid jest y berthynas rhwng Cymru â gwledydd eraill y byd.


Pa mor bwysig ydy'r Ddolen Ysgolion rhwng Cymru a Phatagonia?

Dwi'n gobeithio fod hwnnw'n mynd i greu rhyw gyfraniad eitha pwysig i'r genhedlaeth ifaine achos bod pethau nawr trwy'r We yn gallu cael eu gwneud yn rhad ac yn ymarferol mewn ffordd nad oeddech yn gallu ei wneud o'r blaen. Byddai'n rhy gostus, yn cymryd gormod o amser, a byddai plant ddim yn gallu cysylltu gyda'i gilydd yn uniongyrchol fel y maen nhw moyn.

Dydy plant ysgol ddim moyn gwneud pethau trwy oedolion: maen nhw moyn siarad yn uniongyrchol eu hunain. Rhyngddydd nhw mae'r cysylltiad: pobl ifaine Cymru a phobl ifaine o'r un oedran mas yma. Os allen nhw ddysgu oddi wrth ei gilydd, dw i'n meddwl bod y cysylltiad sydd wedi digwydd yn gosod sylfaen at gadw'r cysylltiad i fynd am yr hanner canrif nesaf.

Mae yna lawer o bobl yn bryderus achos bydd y prosiect yn dirwyn i ben ymhen blwyddyn a hanner - ym mis Chwefror 2003. All y Cynulliad ymestyn y cynllun?

O, yn sicr. Wrth gwrs y Cyngor Prydeinig sy'n rhedeg y cysylltiad drostion ni: nhw sydd gyda'r arbenigedd, yr wybo-



Rhodri Morgan yn lawnsio Dolen Ysgolion

daeth a'r profiad. Dyma'r math o beth sydd yn bwysig iawn i'r Cynulliad. Mae'r Cynulliad moyn codi proffil a delwedd Cymru yn y byd. Ni moyn codi hunanhyder y Cymry o ran ein cyfraniad ni at ddiwylliant a thyfiant economaidd y byd. Felly, mae'r cysylltiad rhwng Cymru a'r Wladfa yn bwysig iawn; a'n dealltwriaeth ni fel Cymry o'r hyn sydd wedi digwydd mas yn y Wladfa.

Dwi'n gobeithio y bydd pawb yn deall y berthynas a'i phwysigrwydd hi, ac yn dod i ddysgu am ddaearyddiaeth, y dechnoleg a'r We. A hefyd yn dysgu llawer o bethau sy'n ymarferol pan rych chi'n edrych am swydd mas yn y byd eang, a phan ych chi wedi cwplâ'r ysgol ddeg neu bymtheng mlynedd nes ymlaen.

O'r hyn dach chi'n gallu ei weld, ydy'r arian sydd wedi ei wario yn gallu cael ei gyfiawnhau? Dach chi'n meddwl bod y prosiect wedi llwyddo, ac os na fyddan nhw'n parhau yn y dyfodol, dach chi'n dal yn meddwl ei bod yn werth rhoi'r arian i'r Wladfa yn y lle cyntaf?

Wel, dyna'r argraff wy'n ei gael. Wrth siarad gyda phobl mewn oed, maen nhw'n awyddus dros ben i gario ymlaen. Hyd yn hyn, dwi ond wedi gallu siarad gyda dau neu dri o blant, felly dw i ddim yn gallu barnu ar ran y plant. Ond yn sicr, mae'r bobl mewn oed yn gwerthfawrogi presenoldeb yr athrawon yn fwy nag unrhyw ddisgwyliadau y gallwn i eu cael. Mae o'r peth pwysica sydd wedi digwydd i'r iaith ac i'r diwylliant Cymreig a Chymraeg yma.

Cyfweliad gyda Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan Rhys Llewelyn.

"MAE o'r peth pwysica sydd wedi digwydd i'r iaith ac i'r diwylliant Cymreig a Chymraeg."

Beth am y dyfodol? Ail-iaith ydy'r Gymraeg i'r bobl ifaine sy'n ei dysgu hi. Sut allwn ni gael mwy o blant a phobl ifaine yn ddwyieithog? Beth all y Gwladfawyr ei wneud?

Mater iddyn nhw a'r awdurdodau addysg yma yw i ddatblygu'r system addysg ble dyw nhw ddim yn gweld unrhyw gynnydd yn nefnydd y Gymraeg fel bygythiad i'w system addysg. Dwi ddim yn gweld bod y Gymraeg wedi bod yn fath o fygythiad. A dweud y gwir, mae'n datblygu'n fath o ymwybodaeth o addysg a all fod yn ddefnyddiol dros ben i blant. Alla'i ddim gwneud y penderfyniad yna dros awdurdodau'r Ariannin neu awdurdodau Chubut.

Pan fo pwysau'n dod oddi wrth y boblogaeth o dras Gymraeg a'u bod nhw'n awyddus iawn i fynd ymlaen gyda'r prosiect o gynyddu faint o bwyslais sydd ar y Gymraeg yma yn Chubut, dwi ddim yn meddwl y byddan nhw ddim yn gydymdeimladol tuag at unrhyw syniadau o'r fath.

Beth ydy'r bwriad o fynd i Chile?

Am resymau masnachol gyda dirprwyaeth o bobl busnes o Gymru sydd wedi dod mas er mwyn allforio i'r Ariannin ac i Chile. Er nad oes cymdeithas Gymraeg mor belled â dwi'n gwybod yn Chile, does yna ddim dylanwad tebyg i'r Wladfa yno, ond 'wy'n mynd yno gyda'r ddirprwyaeth a phobl busnes. Dim ond un o'r bobl busnes sydd wedi dod lawr yma i'r Wladfa, sef Kathy Gittings.

I newid cywair ychydig, sut flas dach wedi ei gael o'r bwyd, y diwylliant a'r Gymraeg a siaredir yma?

Wel, gormod o fwyd - mae'r bwyd yn neis. Allwch chi weld pa mor anodd oedd hi i'r arloeswyr achos cyn lleied o ddwr sydd yma. Lle anodd iawn i ffarmo allwn i feddwl. Allwch chi weld yn Nhrelew a'r Gaiman hefyd bod hi'n gymdeithas eithaf llewyrchus ac yn mynd i fod mewn bodolaeth mewn hanner canrif. Ryn ni'n gobeithio y bydd yr elfen Gymreig a Chymraeg yn y gymdeithas yn para am hanner canrif hefyd.